

# Compact

---

Rhwng Gwasanaethau Gwirfoddol  
Morgannwg

a

Chyngor Bro Morgannwg

2017-2021



## **Compact rhwng Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg a Chyngor Bro Morgannwg**

Mae'r pedwerydd rhifyn hwn o'r compact yn adeiladu ar y gwaith partneriaeth sylweddol sy'n digwydd rhwng Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg a Chyngor Bro Morgannwg.

Mae'r compact yn cydnabod y cyfraniad enfawr a wneir i gymunedau lleol, a'r gymuned gyfan, drwy weithredu gwirfoddol. Mae'n nodi diffiniadau clir o gyfrifoldebau a disgwyliadau'r Cyngor a'r sector gwirfoddol wrth gydweithio.

Mae'r compact yn darparu fframwaith ar gyfer cydweithio parhaus, o fewn cyd-destun ehangach cynllunio cymunedol. Mae'n gytundeb sy'n seiliedig ar egwyddorion uniondeb, ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd.

Mae'r compact diwygiedig hwn yn adeiladu ar yr egwyddorion craidd a sefydlwyd mewn fersiynau blaenorol ac yn ceisio datblygu cyfleoedd pellach ar draws ystod o feysydd i gefnogi cymunedau cryf ym Mro Morgannwg. Mae'r fersiwn hon o'r Compact wedi'i chynhyrchu i ddarparu fframwaith i'r Cyngor a Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg weithio ynddo. Mae'r fersiynau blaenorol wedi cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel sefydliad partner. Bu datblygiadau sylweddol rhwng y sefydliad hwnnw a'r sector gwirfoddol (gyda threfniadau llywodraethu ategol), yn ogystal â sefydlu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y cyfamser ac mae'r Compact hwn bellach yn canolbwyntio ar ddatblygu'r berthynas rhwng y Cyngor a'r sector gwirfoddol.

Llofnod.....  
Ar ran Cyngor Bro Morgannwg

Llofnod .....  
Ar ran Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg

# 1. Nodau ac Amcanion y Compact

**Nod y Compact yw darparu fframwaith lleol lle gall y sector gwirfoddol a'r cyngor weithio gyda'i gilydd mewn ffyrdd sy'n fuddiol i'r ddwy ochr, gan alluogi pob un i gyfrannu'n llawn ac yn effeithiol at sicrhau llesiant cymunedau ym Mro Morgannwg.**

Yn seiliedig ar bedair thema, mae gan y compact nifer o amcanion:

<b>Cyfathrebu, Ymgynghori a Chyfranogi</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Annog datblygu a chynnal amrywiaeth o fecanweithiau ar gyfer cyfathrebu effeithiol a thryloyw ar faterion sydd o ddiddordeb cyffredin</li></ul>
<b>Gweithio mewn Partneriaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Annog arferion da o ran cyfranogi, ymgynghori a gwneud penderfyniadau</li><li>• Cynyddu rôl Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg wrth gynnal a datblygu'r rhyngwyneb rhwng y Cyngor a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a phreifat ym Mro Morgannwg</li><li>• Annog datblygu mecanweithiau priodol ar gyfer adolygu gwasanaethau statudol a gwirfoddol ynghyd â chyfleoedd i gymryd rhan mewn rhaglenni adolygu yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol</li></ul>
<b>Cyllid ac Adnoddau</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Datblygu a chynnal mecanweithiau ar gyfer gwneud y defnydd gorau o'r cyllid a'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer y sector gwirfoddol a'r Cyngor drwy weithio'n dryloyw ac yn greadigol gyda'i gilydd ac eraill</li></ul>
<b>Gwirfoddoli</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Annog gweithredu gwirfoddol a mentrau gwirfoddoli sy'n dangos potensial i ychwanegu gwerth at y gwasanaethau presennol a diwallu anghenion nas diwallwyd</li></ul>

Mae'r amcanion hyn wedi'u hategu gan ymrwymadau a wnaed yn y compact hwn gan y Cyngor a'r sector gwirfoddol. Cyflwynir pob thema gan gamau gweithredu penodol sydd wedi'u cynnwys mewn cynllun gwaith a adolygir yn flynyddol ac a oruchwylir gan Gydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol.

Wrth gyflawni'r amcanion hyn mae'n golygu y bydd y partïon yn:

- Cael llais cyfartal am y trefniadau i'r partïon gydweithio;
- Cyfrannu ar gam ffurfiannol a chyn gynted â phosibl wrth lywio datblygiad y polisi;

- Cyfrannu at y gweithdrefnau ar gyfer gweinyddu a dosbarthu adnoddau i'r sector gwirfoddol;
- Cael cynigion wedi'u hasesu yn erbyn meini prawf cyffredin, teg a chyfartal;
- Cael cyfleoedd i arwain yn y meysydd hynny lle maent yn y sefyllfa orau i wneud hynny.

Mae'r cytundeb yn gweithio o'r rhagosodiad bod y partïon yn bartneriaid cyfartal o ran y materion hyn.

## 2. Gweledigaeth

Mae'r cytundeb hwn yn cydnabod mai gweithredu gwirfoddol ynghyd â gweithio mewn partneriaeth yw'r sail ar gyfer democratiaeth leol fywiog a chymunedau cryf lle mae pobl leol yn:

- Cefnogi ei gilydd yn weithredol;
- Rhannu yn y broses o wneud penderfyniadau sydd eu hangen i wella eu cymunedau;
- Gallu datblygu a defnyddio eu sgiliau yn llawn;
- Yn byw mewn amgylcheddau adeiledig diogel, cynaliadwy ac wedi'u cynllunio'n dda;
- Cymryd rhan ym mywyd artistig a diwylliannol unigryw Cymru;
- Cael mynediad at ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau lleol sy'n gwella iechyd a lles.

Bydd y weledigaeth a rennir hon ond yn cael ei chyflawni os yw'r partïon a'r sector gwirfoddol ehangach:

- Deall, cydnabod a pharchu eu rolau nodedig;
- Gweithio gyda'n gilydd i alluogi egni ac amrywiaeth cymunedau lleol i ddod o hyd i fynegiant drwy bartneriaeth.

## 3. Gwerthoedd Cyffredin

Mae'r Cyngor a'r sector gwirfoddol ym Mro Morgannwg yn rhannu nifer o werthoedd cyffredin sy'n sail i bob agwedd ar y Compact hwn, sef:

- Cynnig cyfle cyfartal i bawb sy'n byw ym Mro Morgannwg, waeth beth fo'u hil, lliw, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, statws priodasol, anabled, statws iechyd, dewis iaith, crefydd neu gyfrifoldebau teulu/domestig;
- Deall a derbyn annibyniaeth a chymhlethdod y sector gwirfoddol;
- Gwella democratiaeth leol drwy rymuso pobl i gyfrannu at ddatblygiad eu cymunedau;
- Galluogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ym Mro Morgannwg;

- Annog yn weithredol bartneriaethau rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i wella ansawdd bywyd cymunedau ac unigolion;
- Annog gweithredu gwirfoddol i feithrin arweinyddiaeth gymunedol a gwella democratiaeth leol.
- Cydnabod cyfraniad gwirfoddolwyr a gofalwyr di-dâl i iechyd a lles trigolion Bro Morgannwg.

## 4. Partneriaid y Compact a'r Cyd-destun

### Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg [i Rachel ei adolygu]

Diffiniad mudiad gwirfoddol, a hyrwyddir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ac a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw y dylai fod yn "hunanlywodraethol, yn annibynnol ar y wladwriaeth neu'r busnes, nid yw'n dosbarthu unrhyw warged, ac mae'n elwa ar ddyngarwch (rhoddion, rhoddion mewn nwyddau neu amser). Mae meini prawf ychwanegol yn cynnwys dangos budd y cyhoedd a phresenoldeb mwyafrif y penodeion anstatudol neu gynrychiolwyr ar fwrdd ymddiriedolwyr a mwyafrif yr aelodau anstatudol".

Gall sefydliad gwirfoddol gyflogi staff cyflogedig neu beidio a gall dderbyn rhywfaint o'i gyllid neu'r cyfan ohono o ffynonellau statudol. Bydd yn cael ei ystyried yn fudiad gwirfoddol cyn belled â bod y meini prawf yn y diffiniad uchod yn berthnasol.

Mae'r sector gwirfoddol ym Mro Morgannwg yn bartner cymdeithasol allweddol, gan weithio ochr yn ochr â'r sectorau cyhoeddus a phreifat i greu democratiaeth fodern deg ac iach. Mae gweithredu gwirfoddol a gwirfoddoli yn rhan gynhenid o wead cymunedau lleol, gan ategu llawer o'r gweithgaredd a'r sefydliad sy'n clymu cymunedau ynghyd.

Mae mudiadau gwirfoddol a chymunedol yn ategu llywodraeth etholedig drwy ddarparu sianel hanfodol i grwpiau difreintiedig gael eu clywed. Maent yn creu cyfleoedd i bobl gydwethio i fynd i'r afael â phroblemau yn eu cymunedau a datblygu arweinyddiaeth gymunedol. Maent yn ymwneud â phob maes gwasanaeth cyhoeddus, fel eiriolwyr dros wella, peiriannau ar gyfer newid ac arloesi, ffynonellau cyngor annibynnol a darparwyr gwasanaethau prif ffrwd.

Dyma gryfderau nodedig y sector gwirfoddol a chymunedol ym Mro Morgannwg:

- ei annibyniaeth;
- ei agosrwydd at gymunedau a defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus;
- gallu i ymgyrchu i ddiwallu eu hanghenion;
- ei allu i arloesi dulliau newydd a darparu dewis ac amrywiaeth mewn gwasanaethau;
- y cyfleoedd y mae'n eu creu i bobl gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mewn ymateb i alwadau cynyddol, ar lefelau cenedlaethol a lleol, mae mudiadau gwirfoddol yn newid ac yn esblygu. Er mwyn cefnogi a datblygu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y gymuned, mae angen i'r sector gwirfoddol ei hun gael mynediad at gymorth gwybodaeth a datblygu. Ym Mro Morgannwg, mae Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg wedi'i gyfansoddi i chwarae rhan allweddol wrth hwyluso cynrychiolaeth y sector gwirfoddol lleol ac wrth nodi ac ymateb i angen y sector am ddatblygu a chefnogi.

Mae Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg yn gweithredu fel y sefydliad ymbarél sy'n cefnogi, datblygu a hyrwyddo gweithredu gwirfoddol ym Mro Morgannwg.

### **Cyngor Bro Morgannwg**

Mae gan y Cyngor rôl ganolog wrth lunio dyfodol ei ardal. Gweledigaeth gyffredinol y Cyngor ar gyfer ei ardal yw un o "gymunedau cryf gyda dyfodol disglair". Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn nodi cyfres o ganlyniadau ac amcanion llesiant sy'n cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol a gyflwynwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf yn ceisio sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ymarfer datblygu cynaliadwy, sef y broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau sydd â'r nod o gyflawni'r nodau llesiant.

Er mwyn gwireddu gweledigaeth y Cyngor, mae ganddo'r canlyniadau llesiant canlynol ar waith:

- Bro Gynhwysol a Diogel - Mae gan ddinasyddion Bro Morgannwg ansawdd bywyd da ac maent yn teimlo'n rhan o'r gymuned leol;
- Bro sy'n Gyfrifol yn Amgylcheddol ac sy'n Ffynnu – Mae gan Fro Morgannwg economi cryf a chynaliadwy ac mae'r amgylchedd lleol yn cael ei diogelu i genedlaethau heddiw a'r dyfodol.
- Bro Uchelgeisiol a Bywiog ei Diwylliant - Mae holl ddinasyddion Bro Morgannwg yn cael cyfleoedd i gyrraedd eu llawn botensial.
- Bro Actif ac Iach – Mae trigolion Bro Morgannwg yn byw bywydau iach a chaiff pobl sy'n agored i niwed eu hamddiffyn a'u cefnogi.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith sy'n golygu bod yn rhaid i gorff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain. Mae'r Cyngor yn ystyried pum peth er mwyn dangos ei fod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Bydd dilyn y ffyrdd hyn o weithio yn ein helpu i gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor yr ydym yn eu hwynebu. Y pum ffordd o weithio yw:

- **Hirdymor:** Pwysigrwydd cydbwysu anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor hefyd;
- **Atal:** Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i fodloni eu hamcanion;

- **Integreiddio:** Ystyried sut y gall amcanion lles cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill;
- **Cydweithio:** Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion lles;
- **Cynnwys Pobl:** Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn ceisio sicrhau bod y Cyngor yn cyfrannu gymaint y gallai at y nodau llesiant ac yn cynnwys ymrwymiadau i ddilyn y ffyrdd o weithio er mwyn darparu cymunedau cryf gyda dyfodol disglair. Mae enghreifftiau'n cynnwys cydweithio, cydnabod y gall gyflawni mwy a darparu gwell gwasanaethau drwy weithio fel rhan o dîm, er enghraifft y Trydydd Sector, Cynghorau Tref a Chymuned a sefydliadau eraill. Mae cynnwys y boblogaeth mewn penderfyniadau yn ffordd allweddol o weithio drwy ymgysylltu â thrigolion a chwsmeriaid ar eu pen eu hunain neu'n fwyfwy aml, mewn partneriaeth. Mae hyn yn sail i ddull integredig lle defnyddir anghenion cwsmeriaid fel man cychwyn ar gyfer sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu a'u cynllunio drwy weithio gyda phartneriaid. Enghraifft allweddol o weithgarwch yn y maes hwn yw ffocws y Cyngor, y gwasanaethau iechyd a'r sector gwirfoddol. Mae cymryd camau ataliol ac edrych i'r tymor hir yn ffyrdd pwysig o weithio ac yn sail i'r lluo o alwadau cystadleuol ar wasanaethau'r cyngor ac yn helpu i lywio llunio polisïau. Mae synergedd clir rhwng y Ddeddf hon a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn gweithio i'w gyflawni.

Mewn ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan yr hinsawdd bresennol, mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth ar gyfer newid trawsnewidiol o'r enw Ail-lunio Gwasanaethau. Gan gydnabod yr heriau ariannol digynsail sy'n wynebu'r Cyngor, mae'r strategaeth ragweithiol yn ceisio ail-lunio'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio er mwyn lliniaru effaith toriadau a chynorthwyo i barhau i ddarparu gwasanaethau blaenoriaeth. Mae'r rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau yn cynnwys gwaith sy'n torri ar draws holl adrannau'r Cyngor ac yn ceisio manteisio ar y synergedd rhwng adrannau a'r arbedion maint a gyflwynir drwy fynd i'r afael â materion yn gorfforaethol. Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i gydnabod a harneisio ymhellach werth y cyfraniad y mae'n rhaid i'r sector Gwirfoddol a'r Cynghorau Tref a Chymuned ei chwarae, gyda phrosiectau pwrpasol ar waith i fynd ar drywydd y cyfleoedd hyn a'r partneriaid hyn yn cael eu cynrychioli ar fyrdau prosiectau allweddol ac yn ymwneud â gwneud penderfyniadau.

## 5. Cyfraniadau i'r Compact

Y Cyngor	Y Sector Gwirfoddol
Mae'r Cyngor yn cydnabod:	Mae'r sector gwirfoddol yn cydnabod:
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Amrywiaeth gweithgaredd gwirfoddol ym Mro Morgannwg;</li> <li>• Y cyfraniad i fywyd cymunedol ac iechyd a lles y gymuned gan wirfoddolwyr, a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol;</li> <li>• Annibyniaeth sefydliadau gwirfoddol a chymunedol wrth bennu eu blaenoriaethau eu hunain a rheoli eu materion eu hunain;</li> <li>• Rolau eiriolaeth ac ymgyrchu y sector gwirfoddol ar ran y gymuned;</li> <li>• Bod y sector gwirfoddol yn cynnig gwasanaethau sy'n ategu'r rhai a ddarperir gan y Cyngor;</li> <li>• Bod gwirfoddoli yn digwydd yn ffurfiol ac yn anffurfiol er budd y gymuned ac mae'n ymrwymiad amser ac egni, a roddir am ddim;</li> <li>• Bod mudiadau gwirfoddol a chymunedol yn cynrychioli budd eu hetholwyr gan gynnwys y rhai hynny o grwpiau anoddach eu cyrraedd a grwpiau lleiafrifol;</li> <li>• Bod sefydliadau gwirfoddol a chymunedol wedi'u rhwymo gan eu dogfennau llywodraethu, ac yn atebol i'w haelodau a'r unigolion a'r cymunedau y maent yn gweithio gyda nhw.</li> <li>• Eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau statudol i'r sector gwirfoddol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrifoldebau statudol y Cyngor;</li> <li>• Y fframwaith cyfreithiol ac ariannol y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo;</li> <li>• Y gofyniad i'r Cyngor roi cyfrif am gomisiynu / gwario arian cyhoeddus;</li> <li>• Yr angen i grwpiau unigol gael gweithdrefnau a strwythurau wedi'u diffinio'n glir i'w galluogi i gyflawni eu rhwymedigaethau a bod yn atebol;</li> <li>• Bydd y gefnogaeth honno i fudiadau gwirfoddol a chymunedol yn cael ei benderfynu ar sail blaenoriaethau, polisiau a gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn dilyn ymgyngoriad â'r sector;</li> <li>• Bod gan grwpiau gwirfoddol a chymunedol gyfrifoldeb i ddarparu gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion a disgwyliadau newidiol pobl leol yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol;</li> <li>• Bod gan grwpiau gwirfoddol a chymunedol gyfrifoldeb i gyrraedd targedau perfformiad mesuradwy, gwell a fforddiadwy yn gyson.</li> </ul>



## 6. Cyflawni'r Compact

Ar gyfer pob un o bedair thema'r Compact, mae cyfres o amcanion wedi'u sefydlu ac ymrwymadau wedi'u gwneud gan y Cyngor a'r sector gwirfoddol ynghylch sut y bydd y rhain yn cael eu cyflawni.

### i. Cyfathrebu, Ymgynghori a Chyfranogiad

Mae cyfathrebu effeithiol rhwng y Cyngor a'r sector gwirfoddol yn hanfodol er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol wrth weithio ar y cyd i gyflawni amcan y thema hon:

- Annog datblygu a chynnal amrywiaeth o fecanweithiau ar gyfer cyfathrebu effeithiol a thryloyw ar faterion sydd o ddiddordeb cyffredin.

Bydd y Cyngor yn:	Bydd y Sector Gwirfoddol yn:
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal ymrwymiad i Gydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol;</li> <li>• Darparu cyfleoedd i'r sector gwirfoddol a chymunedol gyfrannu at ddatblygu cynlluniau byrdymor a hirdymor;</li> <li>• Sefydlu ymgynghoriad cynnar ar faterion polisi sy'n effeithio'n uniongyrchol ar sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a'r bobl y maent yn eu gwasanaethu;</li> <li>• Caniatáu digon o amser i'r sector gwirfoddol weithredu trefniadau ymgynghori gyda'u rhwydweithiau eu hunain a defnyddwyr gwasanaethau (o leiaf 8 wythnos, 12 wythnos lle bo hynny'n bosibl);</li> <li>• Adrodd canlyniadau ymgynghori i gyfranogwyr yn y broses o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt;</li> <li>• Cysylltu â Gwasanaeth Gwirfoddol Morgannwg a chyrrff cynrychioladol priodol eraill i hwyluso ymgynghori;</li> <li>• Darparu cyfleoedd i'r sector gwirfoddol barhau i gymryd rhan mewn gweithredu a gwerthuso polisiau;</li> <li>• Cynnal a datblygu sianeli cyfathrebu i roi gwybodaeth lawn i bartneriaid a rhanddeiliaid am faterion a datblygiadau parhaus.</li> <li>• Helpu partneriaid a rhanddeiliaid i ymgysylltu'n llawn drwy sicrhau cyfathrebu rheolaidd ac effeithiol am ddatblygiadau a newidiadau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal ymrwymiad cynhwysol i Gydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol;</li> <li>• Cymryd rhan yn y broses gynllunio cyn gynted â phosibl;</li> <li>• Gweithredu fel pont rhwng y Cyngor a sefydliadau neu unigolion sydd angen cymorth, ac wrth gynorthwyo i nodi meysydd angen heb eu diwallu;</li> <li>• Cymryd rhan mewn ymgynghoriad yn benodol â'r sefydliadau hynny a ariennir gan y Cyngor ac i arwain y gwaith o gynrychioli buddiannau grwpiau penodol;</li> <li>• Cynrychioli barn y sector yn gywir wrth gyflwyno sylwadau i'r Cyngor neu gymryd rhan mewn ymgynghoriad;</li> <li>• Sicrhau bod y wybodaeth a gyflwynir i'r Cyngor yn gywir ac yn deillio o ymchwil diduedd a gwrthrychol;</li> <li>• Cadw at ddeddfwriaeth a chanllawiau sy'n effeithio ar waith cynrychioladol ac ymgyrchu;</li> <li>• Cefnogi datblygiad mentrau o fewn y sector sy'n mynd i'r afael â'r angen a nodwyd.</li> </ul>

## ii. Partneriaeth

Mae'r Compact yn diffinio 'Partneriaeth' fel cydweithio tuag at gyfres gyffredin o nodau, yn seiliedig ar gydraddoldeb o ran perchnogaeth, gwneud penderfyniadau a chydabod cyfraniad unigryw pob parti. Mae'r Cyngor a'r sector Gwirfoddol wedi ymrwymo i waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a byddant yn cyfrannu at ei waith a chyflawni ei dargedau perfformiad. Cydnabyddir bod partneriaeth gyfartal ac effeithiol yn dod â manteision a chyfrifoldebau i bawb sy'n gysylltiedig er mwyn cyflawni amcanion y thema hon:

- Annog arferion da o ran cyfranogi, ymgynghori a gwneud penderfyniadau;
- Cynyddu rôl Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg wrth gynnal a datblygu'r rhyngwyneb rhwng y Cyngor a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a phreifat ym Mro Morgannwg
- Annog datblygu mecanweithiau priodol ar gyfer adolygu gwasanaethau statudol a gwirfoddol ynghyd â chyfleoedd i gymryd rhan mewn rhaglenni adolygu yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

Bydd y Cyngor yn:	Bydd y Sector Gwirfoddol yn:
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyrwyddo dull corfforaethol o weithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol sy'n adeiladu ar y systemau presennol;</li> <li>• Dynodi swyddogion a enwir i gymryd cyfrifoldeb am faterion sy'n ymwneud â'r sector gwirfoddol;</li> <li>• Annog deialog gyda'r Sector Gwirfoddol ynghylch amcanion hirdymor, drwy ddatblygu gwahanol fecanweithiau, megis fforymau a gweithgorau;</li> <li>• Cynnwys sefydliadau gwirfoddol a chymunedol perthnasol i archwilio effaith newidiadau polisi arfaethedig, cyn ymgynghori'n ffurfiol;</li> <li>• Gweithio gyda'r sector gwirfoddol a chymunedol i ddatblygu partneriaethau er mwyn cyrraedd grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gymuned;</li> <li>• Galluogi cyfranogiad effeithiol yn y sector gwirfoddol mewn Cynllunio Cymunedol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyrwyddo gwerth gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor wrth ddatblygu gweithgarwch gwirfoddol yn y gymuned;</li> <li>• Cyfrannu at ddatblygu trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor;</li> <li>• Bod yn rhagweithiol wrth hysbysu'r Cyngor o unrhyw ddatblygiadau yn y sector gwirfoddol sy'n berthnasol i lunio polisi a strategaeth;</li> <li>• Helpu'r Cyngor i ddatblygu partneriaethau ac ymestyn rhwydweithiau gwybodaeth er mwyn cyrraedd grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gymuned;</li> <li>• Gweithio gyda'r Cyngor i archwilio ffyrdd newydd o fynd i'r afael â darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion penodol defnyddwyr gwasanaeth.</li> <li>• Cymryd rhan weithredol yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chyfrannu at gyflawni camau gweithredu a thargedau perfformiad.</li> </ul>

### iii. Cyllid ac Adnoddau

Drwy gydweithio, mae'r sector gwirfoddol a'r Cyngor yn cydnabod bod capasiti i gael gafael ar adnoddau ychwanegol a gwneud defnydd mwy creadigol o adnoddau, sy'n gynyddol bwysig mewn cyfnod o gyllid sy'n lleihau a galw cynyddol gymhleth ar wasanaethau.

Mae gan y thema hon yr amcan:

- Datblygu a chynnal mecanweithiau ar gyfer gwneud y defnydd gorau o'r cyllid a'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer y sector gwirfoddol a'r Cyngor drwy weithio'n dryloyw ac yn greadigol gyda'i gilydd ac eraill

Bydd y Cyngor yn:	Bydd y Sector Gwirfoddol yn:
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyhoeddi / cyfathrebu'n eang, gwybodaeth glir am y cymorth grant sydd ar gael, bwriadau comisiynu, a gweithdrefnau cyllid, cymhwysedd a cheisiadau eraill;</li> <li>• Sicrhau cysondeb rhwng cyfundrefnau ariannu;</li> <li>• Sicrhau bod gweithdrefnau gweinyddu ac asesu ar gyfer rhaglenni ariannu a chontract yn dryloyw ac yn wrthrychol;</li> <li>• Hyrwyddo cytundebau ffurfiol y gellir eu gwerthuso trwy dargedau, amcanion a dangosyddion perfformiad;</li> <li>• Hysbysu canlyniadau cymorth grant a cheisiadau eraill am gyllid o fewn amserlen y cytunwyd arni;</li> <li>• Monitro trefniadau cyllid i hyrwyddo cynllunio hirdymor effeithiol;</li> <li>• Mabwysiadu polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer rheolaeth sefydliadol effeithiol ac effeithlon, gan gynnwys rhoi rhybudd priodol ynghylch unrhyw ddadfuddsoddi arfaethedig a strategaethau ymadael ategol;</li> <li>• Mabwysiadu gweithdrefnau systemau ariannol sy'n briodol i lefel cymorth grant neu drefniadau cyllido eraill;</li> <li>• Defnyddio mecanweithiau cynllunio effeithiol a systemau monitro i werthuso perfformiad yn erbyn targedau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mabwysiadu polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer rheolaeth sefydliadol effeithiol ac effeithlon;</li> <li>• Mabwysiadu gweithdrefnau a systemau gwybodaeth rheolaeth ariannol sy'n briodol i lefel cymorth grant neu drefniadau cyllido eraill;</li> <li>• Defnyddio mecanweithiau cynllunio effeithiol a systemau monitro i werthuso perfformiad yn erbyn targedau;</li> <li>• Sicrhau cytundebau â'r Cyngor cyn gwneud cais am grantiau allanol â therfyn amser, os oes angen parhau â chyllid ar gyfer y prosiectau gan y Cyngor;</li> <li>• Gweithio o fewn fframwaith y cytunwyd arno ar gyfer cymorth grant a cheisiadau neu gontractau cyllido eraill;</li> <li>• Mabwysiadu polisiâu i sicrhau cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar ei waith;</li> <li>• Dangos effeithiolrwydd ei waith e.e. drwy weithredu systemau sicrwydd ansawdd priodol;</li> <li>• Cydnabod cefnogaeth y Cyngor yn gyhoeddus.</li> <li>• Hyrwyddo'r defnydd o arian y Cyngor i "ysgogi" adnoddau ychwanegol o ffynonellau eraill.</li> </ul>

## iv. Gwirfoddoli

Mae mwyafrif y mudiadau gwirfoddol sy'n gweithredu ym Mro Morgannwg yn cynnwys gwirfoddolwyr yn ddyddiol, gan eu helpu i ddarparu llawer o wasanaethau amrywiol i gymunedau Bro Morgannwg. Mae gwirfoddoli'n ymrwymiad amser ac egni er budd cymdeithas a'r gymuned a gall fod ar sawl ffurf. Mae'n cael ei wneud yn rhydd a thrwy ddewis, heb ystyried enillion ariannol.

Mae gan y thema hon yr amcan:

- Annog gweithredu gwirfoddol a mentrau gwirfoddoli sy'n dangos potensial i ychwanegu gwerth at y gwasanaethau presennol a diwallu anghenion nas diwallwyd.

Bydd y Cyngor yn:	Bydd y Sector Gwirfoddol yn:
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cydnabod gwerth economaidd a chymdeithasol mewnbwn gwirfoddolwyr i wasanaethau a bywyd cymunedau fel mynegiant pwysig o ddinasyddiaeth ac yn elfen hanfodol o ddemocratiaeth leol.</li> <li>• Cydnabod costau gwirfoddoli o fewn ei grantiau a'i strategaethau gwasanaeth;</li> <li>• Datblygu polisi gwirfoddoli corfforaethol i sicrhau cysondeb yn y trefniadau ar gyfer gweithio gyda gwirfoddolwyr a'u cynnwys;</li> <li>• Cydnabod rôl a phwysigrwydd cyngor a gwybodaeth annibynnol am wirfoddoli;</li> <li>• Codi proffil gwirfoddoli o fewn ardal Cyngor Bro Morgannwg ac ymhlith ei weithwyr.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu gwybodaeth reolaidd am faint o weithgareddau gwirfoddoli a'u gwerth economaidd ym Mro Morgannwg;</li> <li>• Gweithredu egwyddorion arfer gorau wrth wirfoddoli, gan gynnwys ad-dalu treuliau y talwyd amdanynt;</li> <li>• Sicrhau bod gan fudiadau gwirfoddol bolisiau gwirfoddoli;</li> <li>• Hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli i bob sector o'r gymuned;</li> <li>• Datblygu mentrau ar gyfer cydnabod a gwobrwyo cyfraniad gwirfoddolwyr;</li> <li>• Cynnwys ac ymgynghori â gwirfoddolwyr ar waith y mudiadau gwirfoddol;</li> <li>• Monitro cyfranogiad a phatrymau gwirfoddoli yn y Fro.</li> </ul>

## **v. Cylch gorchwyl Cydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol**

Mae Cydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol yn bwyllgor Cyngor Bro Morgannwg. Diben Cydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol yw hwyluso cydweithio rhwng y Cyngor, y sector gwirfoddol ac eraill. Ei gylch gorchwyl yw:

1. Cyfeirio, fel y bo'n briodol, adroddiadau ac argymhellion i Gabinet y Cyngor a Gweithredwyr Sefydliadau'r Sector Gwirfoddol.
2. Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd o blith yr 8 aelod o'r Cyngor ac Is-gadeirydd anrhydeddus o blith y 7 cynrychiolydd o'r Sector Gwirfoddol.
3. Rhoi gwybod i'r Cyngor am anghenion, barn a phryderon y Sector Gwirfoddol.
4. Adrodd ar waith y sefydliadau hynny a ariennir drwy grant gan y Cyngor, naill ai'n llawn neu'n rhannol.
5. Gweithredu fel fforwm ymgynghorol lle gall y Sector Gwirfoddol a'r Cyngor, mewn partneriaeth, gyflwyno cynigion polisi i'w trafod a phenderfynu arnynt.
6. Hwyluso a hyrwyddo cydweithio rhwng y Cyngor a'r Sector Gwirfoddol.
7. Yn unol â'r darpariaethau statudol, dim ond aelodau'r Cyngor fydd â hawliau pleidleisio. Fodd bynnag, lle nad oes consensws, bydd hyn yn cael ei adrodd yn y cofnodion a'i gyflwyno gerbron y Cabinet cyn gwneud penderfyniad.
8. Adolygu'r Compact a'r Cynllun Gwaith Blynyddol cysylltiedig a monitro ac adrodd ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Compact a'r Cynllun.
9. Ystyried adroddiadau'r Cabinet a Phwyllgorau eraill y Cyngor sy'n cael ystyriaeth ac effaith ar y Sector Gwirfoddol.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys cynrychiolaeth gyfrannol o'r Cyngor a chynrychiolwyr y sector gwirfoddol sy'n cael eu hethol gan aelodau Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

Mae'n cyfarfod yn rheolaidd ar y dyddiadau a gyhoeddir ac mae'r aelodaeth yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Mae Cadeirydd y pwyllgor yn Aelod Etholedig Cyngor Bro Morgannwg.

Yn ymarferol, mae Cydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol yn cymryd cyfrifoldeb am gytuno ar fframwaith strategol drwy:

- Egluro disgwyliadau'r Cyngor a'r sector gwirfoddol ym Mro

Morgannwg;

- Adnabod nodau a blaenoriaethau ar y cyd yn ddigon manwl i lywio polisi;
- Pennu'r agweddau hynny ar y berthynas sy'n gofyn am ddull partneriaeth.

## **vi. Monitro ac Adolygu'r Compact**

Mae'r Compact yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n llawn bob pedair blynedd neu'n gynt os cytunir bod angen gwneud hynny. Bydd Cydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol yn mesur cynnydd o ran cyflawni nodau'r Compact drwy osod ac adolygu camau gweithredu a gynhwysir mewn cynllun gwaith, a fydd yn cael ei adolygu'n ffurfiol yn flynyddol.

